ymgynghoriaeth wavehill consulting

Bwletin Ariannu'r Undeb Ewropeaidd Haf 2009

Cyflwyno Ymgynghoriaeth Wavehill

Mae Ymgynghoriaeth Wavehill yn ddarparwr gwasanaethau ymgynghori blaenllaw ar brosiectau ERDF ac ESF. Gyda 15 mlynedd o brofiad, gallwn gynnig y gwasanaethau a'r datrysiadau a ganlyn ar raglenni newydd:

- **Monitro, Sefydlu a Chasglu Data**
- **Gwerthusiad Parhaus, Dros Dro a Therfynol**
- **Ymchwil Gwaelodol**
- **Datblygu Fframwaith**

Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf rydym wedi gweithio ar dros 25 o brosiectau Amcan 1 yng Nghymru, ynghyd â 55 o brosiectau ERDF ac ESF yn Lloegr. Credwn fod casglu data yn ystod prosiectau Ewropeaidd yn broses arbenigol sy'n gofyn am ymdriniaeth drefnus. Mae data da yn golygu sicrhau mwy o dystiolaeth i ddangos gwir effaith ein gwaith.

Dyna ein harbenigedd ni.

Mae'r dulliau a ddefnyddiwn wedi'u seilio ar arfer gorau cydnabyddedig, gan gynnwys y rheini a amlinellir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi a'r rheini a hyrwyddir gan Gymdeithas Gwerthuso'r DU. Mae ein dulliau gwerthuso ac adroddiadau ERDF ac ESF bob amser wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn unol â chanllawiau WEFO.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n cleientiaid i sicrhau ein bod yn deall y prosiect. Mae gennym y gallu hefyd i gysylltu â'ch partneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr, a'r arbenigedd i fesur effaith eich prosiect. Rydym yn aelodau o'r cyrff a ganlyn:

- **Cymdeithas Gwerthuso'r DU**
- **Cymdeithas Ymchwil y Farchnad**
- **Cymdeithas Ymchwil Cymdeithasol**



'Gwasanaeth Cwbl Ddwyieithog'

Mae Wavehill wedi'i leoli yn Aberaeron, Ceredigion, ac mae gennym y gallu i gyflwyno ein holl wasanaethau ymchwil a gwerthuso yn ddwyieithog. Mae gennym staff dwyieithog ar bob lefel o'n sefydliad a gallwn gynnal arolygon ymchwil busnes a chymdeithasol ar raddfa fawr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

• **Lansio Gwefan Newydd:**

Adborth Cleient

'Roedd gwerthusiad Wavehill yn gonglfaen ar gyfer ein cais ariannu Ewropeaidd Cyfnod 2, roedd yn allweddol yn nhermau dangos ymgynghoriadau ac hefyd effeithiau canfyddedig.'— WCVA

www.wavehill.com

Ein Prosiectau Diweddar

- Gwerthusiad ERDF o Gynllun Adfywio Ffisegol Sir Gâr gwerth £30m.
- Gwerthusiad o Gefnogaeth busnes a gwasanaeth deori wedi'u hariannu gan ERDF ym Mhrifysgol Ganolog Swydd Gaerhirfryn.
- Gwerthuso pedwar prosiect wedi'i ariannu gan ESF i oresgyn allgau cymdeithasol ac addysgiadol ymhlith pobl ifanc.
- Gwerthusiad Dros Dro a Therfynol o'r Gronfa Risg Gymdeithasol yn targedu grwpiau difreintiedig.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Dr Andrew Davies ar 01545 571711 neu trwy e-bost andrew.davies@wavehill.com